

Mannau Ymgyfarfod.

Ychydig ddyddiau yn ôl, roeddwn i yn y Gwersyll Rhufeinig ym Mangor. Os na fuoch chi yno erioed, ewch! Mae'n lle uchel a hyfryd ac yn ddigon agos i unrhyw un sy'n byw yn y ddinas a'r cyffiniau gerdded ato. Mae'r golygfeydd yn ysblennydd, ac yn fodd i'n hatgoffa ein bod ni'n byw yn un o'r lleoedd prydferthaf ar y ddaear. Mae'r golygfeydd yn anhygoel ar bob cwr, y dyfroedd, y mynyddoedd, y caeau a'r awyr, heb sôn am y pier a chipolwg ar yr ynys.

Mae'n fan ymgyfarfod. Mae'n lle i ymadfer. Mae'n lle i adnewyddu.

P'un a ydych chi'n rywun o ffydd ai peidio, mae'r mannau gwyllt yn mynd â ni y tu hwnt inni ein hunain ac yn fodd inni feddwl meddyliau amgen, ystyried materion mwy a bod yn ddiolchgar am ein hamgylchedd. Efallai y byddem am ddiolch i Dduw, i fyd natur neu i'n rhieni am ein hannog i ddod i le mor ysblennydd. Efallai y bydd 'bod' yn ddigon inni.

Mewn amseroedd caled, anghofiwn am ein hamgylchedd a phan fyddwn yn cael llond bol neu'n anobeithio, mae ein cyrff yn mynd yn swp yn naturiol. Edrychwn am i lawr, yn aml at ein traed, yn amlach na hynny ar declynnau nad ydynt wir yn codi'r hwyliau nac yn codi'r galon chwaith.

O na baem yn codi'n golygon am i fyny!

Os ydych chi'n weddol newydd i Fangor, byddwch yn dal i ddarganfod yr holl ryfeddodau sydd gan y ddinas i'w gynnig.

Pan gyrhaeddwn ni, teimlai megis ymosodiad ar y synhwyrau. Roedd cymaint i'w weld a'i brofi, yn enwedig harddwch naturiol y lle.

O edrych am i fyny, yn enwedig ar ben bryn, cawn ein hudo allan ohonom ein hunain, i brofi rhywbeth mwy na ni, a breuddwydio breuddwydion a gobeithion am y dyfodol. Wedi'r cyfan, dyna hanfod Prifysgol, onid e?

Mae addysg, y profiad o fod oddi cartref, ymhell o gartref i lawer ohonoch, yn ymwneud ag ehangu gorwelion, a dysgu anadlu mewn ffordd wahanol.

Ar hyn o bryd, mae bywyd yn ansicr.

Rydym yn dal i chwilio am ein ffordd yn y byd newydd sydd ohoni, ffordd newydd o fod. Rydym yn ceisio deall sut mae astudio'n ddiogel ac yn effeithiol, a mwynhau ein hunain a gwneud ffrindiau newydd. Pa mor ddwys neu ingol bynnag yw eich amser chi ym Mangor, da chi cofiwch edrych am i fyny, esgyn i ben bryn a phrofi popeth mae'r lle hwn yn ei gynnig.